HORIZON NUCLEAR POWER

A UK company of E.ON and RWE

Horizon Nuclear Power
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE
T +44 (0) 845 300 6816

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

NEWS RELEASE

I'W RYDDHAU AR UNWAITH
04 Ebrill 2012

Horizon yn cadarnhau cefnogaeth i gynllun prentisiaeth Môn

Mae cwmni Horizon wedi cadarnhau cyllid ar gyfer Cwmni Prentis Menai, cynllun prentisiaeth sydd yn cael ei weithredu gan Coleg Menai.

Mae'r cadarnhad y bydd cwmni Horizon yn cadw at ei ymrwymiad i ariannu'r cynllun gyda £90,000 am yr ail flwyddyn yn olynol, er gwaetha'r cyhoeddiad yr wythnos diwethaf i werthu'r cwmni gan ei rhanddalwyr i fuddsoddwyr newydd, wedi ei groesawu gan brifathro Coleg Menai, Dafydd Evans. "Mae hwn yn newyddion gwych" meddai." Mae Horizon yn sefyll wrth ei ymrwymiad i ddatblygu talent lleol ar gyfer swyddi a sgiliau yn y sector ynni, ac 'rwyf yn credu bod hwn yn dangos penderfyniad parhaol y cwmni i wireddi ei cynlluniau am orsaf bŵer newydd i Wylfa."

Dywedodd Alan Raymant, Prif Swyddog Weithredol Horizon "Rydym yn cydnabod pwysigrwydd prosiectau o'r math yma i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant i fobl ifanc lleol, ac rydym yn awyddus i barchu ein hymrwymiad i'r cynllun yn ystod 2012."

Yn sôn am ffocws presennol y cwmni, ychwanegodd:

"Mae gennyf dîm o fobol hynod o broffesiynol ac ymroddgar fydd yn gweithio'n agos iawn gyda'n rhanddalwyr er mwyn paratoi'r busnes am berchnogion newydd. Yn y cyfamser, rydym yn dal i weithio ar ein cynlluniau, a bydd y gwaith yr ydym yn ei wneud yn lleol hyd yma, er enghraifft gwaith syrfei tymhorol ecolegol a chynefin yn parhau, fel bydd ein Cymhorthfeydd Agored, lle gall pobol lleol siarad gydag aelodau o dîm y prosiect."

Bydd Cymhorthfa Agored nesaf Horizon yn cymeryd lle rhwng 1yh a 7yh ar ddydd Llun 16 Ebrill yn Neuadd Bentref Cemaes.

Gall unrhywun sydd â chwestiynnau am y prosiect gysylltu â thîm Wylfa hefyd gysylltu drwy ffonio'r llinell gymorth ar 0800 954 9516 neu drwy anfon e-bost i ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com

- DIWEDD -

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Richard Foxhall, Horizon – 07807 769265 or richard.foxhall@horizonnuclearpower.com
Claire Loveday, Horizon – 07717 300 379 or claire.loveday@horizonnuclearpower.com